Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Abererch

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu fuddiol a threfnus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig ac mae eu hymddygiad yn dda.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur gyfeillgar a hapus y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'i gilydd ac oedolion yn Gymraeg, ac yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u treftadaeth leol. Maent yn dangos balchder yn llwyddiannau'r ysgol, er enghraifft wrth i'r 'Dreigiau Bach' gyflwyno'u gwaith mewn cynhadledd.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn ddigon adeiladol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth, sef 'Cyfle i bawb lwyddo', yn glir ac mae cymuned yr ysgol yn cydweithio'n ddiwyd i'w gwireddu. Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan dîm medrus sy'n adnabod y cryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i holl waith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r camau gwella nesaf.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 1 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Darparu cwricwlwm sy’n cefnogi pob disgybl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn adeiladol ar draws y cwricwlwm**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.